## YR ATODLEN

Gweithgareddau y caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau
a gwneud benthyciadau ar eu cyfer o dan y Cynllun hwn

# RHAN 7

**At ddiben datblygu economaidd neu welliant cymdeithasol ardaloedd lle cyflawnir gweithgareddau dyframaethu neu bysgod masnachol**

**1.** Gweithgareddau sy'n hyrwyddo arloesedd.

**2.** Gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau cynghori proffesiynol.

**3.** Gweithgareddau sy'n hyrwyddo cyfalaf dynol a rhwydweithio.

**4.** Gweithgareddau sy'n gwella hylendid, iechyd, diogelwch, a llesiant.

**5.** Gweithgareddau sy'n cefnogi arallgyfeirio busnesau.

**6.** Gweithgareddau sy'n lliniaru effeithiau amgylchiadau esgusodol niweidiol.

**7.** Gweithgareddau sy'n sefydlu neu'n gwella seilwaith ar gyfer defnyddwyr y môr a defnyddwyr dŵr croyw.

**8.** Gweithgareddau sy'n hyrwyddo creu swyddi ac yn annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiannau morol, pysgota a dyframaethu.

**9.** Gweithgareddau sy'n cefnogi pysgotwyr neu ffermwyr dyframaethu i sefydlu busnesau pysgota neu ddyframaethu newydd.

**10.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy safleoedd dyframaethu.

**11.** Gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith o farchnata cynhyrchion morol, pysgodfeydd a dyframaethu neu bysgota hamdden.

**12.** Gweithgareddau sy'n arwain at gynhyrchion, prosesau, neu systemau rheoli a threfnu, newydd neu well.

**13.** Gweithgareddau sy'n lleihau effaith cynhyrchu bwyd môr ar yr amgylchedd morol.

**14.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at warchod, adfer neu wella bioamrywiaeth ac ecosystemau dyfrol.

**15.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at lunio mesurau cadwraeth a'u rhoi ar waith.

**16.** Gweithgareddau sy'n cefnogi gwaith cynllunio gofodol morol mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau morol ac arfordirol.

**17.** Gweithgareddau sy'n cyfrannu at liniaru newid hinsawdd neu ei effeithiau.

**18.** Gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella iechyd a lles anifeiliaid.